





# Beth sy’n gweithio o ran darparu gweithgareddau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau

Cyhoeddwyd 9 Medi 2024

Gwneud synnywr o’r cyfryngau

# Contents


Rhagair ... 3
Cydnabyddiaeth ... 4
Cyflwyniad ... 5
Crynodeb o’r prif ganfyddiadau ... 7
Prosiectau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau gyda phlant a phobl ifanc ... 9
- Pwyntiau cychwyn ... 9
- Canlyniadau ... 10
- Gwersi a ddysgwyd ... 11
- Awgrymiadau Ofcom i gefnogi plant a phobl ifanc ... 14

Prosiectau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau gydag oedolion hŷn ... 15
- Pwyntiau cychwyn ... 15
- Canlyniadau ... 16
- Gwersi a ddysgwyd ... 16
- Awgrymiadau Ofcom i gefnogi oedolion hŷn ... 19

Prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau gyda phobl anabl a phobl ag anableddau dysgu .. 20
- Pwyntiau cychwyn ... 20
- Canlyniadau ... 21
- Gwersi a ddysgwyd ... 21
- Awgrymiadau Ofcom i gefnogi pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu ... 24

Mewnwelediadau gwerthuso ymwybyddiaeth o’r cyfryngau ... 25
- Dyluniad gwerthuso cymesur ... 25
- Dylunio canlyniadau a dangosyddion ... 26
- Asesiad goddrychol a gwrthrychol ... 26
- Amserlenni ... 27
- Awgrymiadau Ofcom i werthuso ymwybyddiaeth o’r cyfryngau ... 28

Casgliadau ac argymhellion ... 29
- Argymhellion i sefydliadau sy’n darparu ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ... 29
- Argymhellion i sefydliadau sy’n comisiynu neu’n ariannu ymyriadau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau ... 30


## Atodiad


A1 Cymorth gwerthuso ... 31
A2 Trosolwg o effaith y Cwestiynau Gwerthuso Allweddol ... 32
A3 Trosolwg o broses y Cwestiynau Gwerthuso Allweddol ... 34
A4 Ffynonellau tystiolaeth ... 37

# Rhagair

O gamau cynnar iawn y fenter hon, roedd hi'n amlwg nad oes dull gweithredu 'un ateb sy'n addas i bawb' o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn gwahodd sefydliadau cyflenwi a chyd-gomisiynwyr neu gyllidwyr i ddod o hyd i'r dull gweithredu sy'n gweithio orau i'r bobl y maent yn ceisio eu cefnogi. Mae hwn yn gyfle cyffrous i ni i gyd fod yn siŵr bod ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y DU. Mae hefyd yn her o ran darparu datrysiadau y gellir eu hehangu, ac mae'n sail i'r farn na all Ofcom ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r mater. Felly, bydd ein strategaeth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sydd ar y gweill yn cyflwyno ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel "busnes pawb" ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chynifer o sefydliadau â phosibl i wireddu hyn.

Rydym ni'n ddiolchgar i'r 13 sefydliad a wnaeth gyflwyno a gwerthuso'r ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Dewiswyd y rhan fwyaf ohonyn nhw oherwydd eu bod yn arbenigwyr yn y cymunedau maen nhw'n eu cefnogi a'r ffordd orau o gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau ar gyfer y bobl hynny yn hytrach nag oherwydd eu bod yn sefydliadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Ar ben hynny, fe wnaethom eu herio i werthuso eu prosiectau mor gadarn â phosibl, yn unol â'r gyllideb a'r amser oedd ar gael. Maent wedi dangos eu bod yn agored i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio ac ymrwymiad i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Yn y bôn, mae'r gwaith hwn wedi ymwneud â dysgu. Yn aml mae adroddiadau prosiect yn canolbwyntio ar ddathlu llwyddiannau ac, a dweud y gwir, mae llawer i'w ddathlu yn y gwaith a gafodd ei wneud fel rhan o'r prosiect hwn. Yn hytrach, fe wnaethom ganolbwyntio ar sicrhau bod yr adroddiad yn cyfrannu at ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran cyflawni prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a chanmol y 13 sefydliad am eu parodrwydd i fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddysgu.

Nid yw cyhoeddi'r adroddiad hwn yn nodi diwedd y prosiectau hyn, ond yn hytrach mae'n gatalydd ar gyfer sgyrsiau am yr hyn sy'n gweithio i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Rydym ni'n eich croesawu i ymuno â'r sgwrs drwy ein rhwydwaith *Making Sense of Media*.



Yih-Choung Teh

Cyfarwyddwr y Grŵp Strategaeth ac Ymchwil, Ofcom

# Cydnabyddiaeth

Diolch i'r 13 sefydliad sydd wedi dylunio, cyflwyno a gwerthuso prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac sydd wedi cymryd rhan weithredol yn y gwaith o rannu eu harferion a'u dysgu drwy gydol y broses:

- Salford Foundation
- Guardian Foundation
- Praesidio Safeguarding
- ProMo Cymru
- Norfolk Libraries
- Age UK East London
- Advice NI
- Red Chair Highland
- West Nottinghamshire College
- Mencap NI
- Mencap Liverpool & Sefton
- AbilityNet
- The Brain Charity

Diolch i'r arbenigwyr gwerthuso, Tim Bidney a Jim Barratt, a gomisiynwyd gan Ofcom i roi cymorth i'r sefydliadau ac a luniodd yr adroddiad hwn.

# Cyflwyniad

*Making Sense of Media* (MSOM) yw rhaglen waith Ofcom i helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein ymhlith oedolion a phlant yn y Deyrnas Unedig.

Ym mis Rhagfyr 2022, fe wnaethom gomisiynu 13 o sefydliadau i brofi a gwerthuso gwahanol ddulliau o wella sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau[1] ymysg tri grŵp carfan:

- plant a phobl ifanc (hyd at 18 oed)
- oedolion hŷn (65+)
- Pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu

Roedd disgwyl i bob prosiect gefnogi pobl mewn ardaloedd a oedd yn wynebu anfantais ariannol.

Roedd y sefydliadau a gomisiynwyd yn cynnwys elusennau, Cwmnïau Budd Cymunedol a gwasanaethau sector cyhoeddus o bob lliw a llun, o fentrau micro, lleol, i elusennau cenedlaethol mawr. Roeddent wedi'u gwasgaru ar draws y DU: o Ogledd Iwerddon i Norfolk, ac o Islington i Inverness. (Gweler tabl 1 am restr o'r sefydliadau a gomisiynwyd.)

Nid oedd y rhan fwyaf o sefydliadau yn 'arbenigwyr' ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn bennaf, ond canfu fod ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn cyd-fynd ag un o'u nodau sefydliadol ehangach neu ffrydiau gweithgarwch. Roedd prosiectau'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau (fel arfer ar y cyd), yn fwyaf cyffredin yn ymwneud â: diogelwch ar-lein (gan gynnwys nodi sgamiau ac osgoi niwed ar-lein); defnyddio technoleg i fynd ar-lein neu ddefnyddio gwasanaethau ar-lein; nodweddion perswadio (gan gynnwys algorithmau a siambrau adlais); a chamwybodaeth a thwyllwybodaeth.

Roedd y rhai â charfannau targed tebyg yn tueddu i ganolbwyntio ar themâu tebyg (gweler tabl 1):

- Roedd prosiectau a oedd yn targedu plant a phobl ifanc yn tueddu i ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig â meddwl yn feirniadol, craffter digidol a chraffter o ran y cyfryngau, a dinasyddiaeth ddigidol
- Roedd prosiectau i oedolion hŷn yn fwy tebygol o gefnogi canlyniadau ynghylch mynd ar-lein ("mynediad a chynhwysiant"), diogelwch ar-lein a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar-lein
- Roedd prosiectau a oedd yn gweithio gyda phobl anabl a phobl ag anableddau dysgu yn canolbwyntio'n gyffredinol ar ganlyniadau diogelwch ar-lein.

[1] Mae Ofcom yn diffinio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fel "y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau ar draws nifer o fformatau a gwasanaethau".

**Tabl 1: Trosolwg o feysydd canlyniadau'r prosiect**

| Sefydliad sy'n arwain y prosiect | Grŵp targed | Mynediad a chynhwysiant | Diogelwch, preifatrwydd ac amddiffyniad rhag niwed ar-lein | Meddwl yn feirniadol am gynnwys | Crafter digidol a chraffter o ran y cyfryngau | Dinasyddiaeth ddigidol ac ymgysylltu â'r cyfryngau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Salford Foundation | Plant a phobl ifanc | | ● | ● | | ● |
| Guardian Foundation | | | | ● | ● | ● |
| Praesidio Safeguarding | | | | ● | ● | ● |
| ProMo Cymru | | | | ● | ● | ● |
| Norfolk Libraries | Oedolion hŷn | ● | ● | ● | | ● |
| Age UK East London | | ● | ● | | | ● |
| Advice NI | | ● | ● | ● | | ● |
| Red Chair Highland | | ● | ● | | | |
| West Nottinghamshire College | | | ● | | | ● |
| Mencap NI | Pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu | | ● | | | ● |
| Mencap Liverpool & Sefton | | | ● | | | |
| AbilityNet | | ● | ● | ● | | |
| The Brain Charity | | | ● | ● | | |

Fe wnaethom ofyn i bob sefydliad ddylunio ei ymyriad ei hun, gan gydnabod eu harbenigedd yn y carfannau y maen nhw'n gweithio gyda nhw. Roedd nifer o sefydliadau wedi defnyddio dulliau cyd-ddylunio i ddatblygu eu prosiectau i raddau mwy neu lai yn ystod yr 14 mis a oedd ar gael iddynt eu cyflawni. Llwyddodd y prosiectau i gyrraedd 2,717 o bobl yn uniongyrchol ar draws y tri grŵp targed yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r tair adran yn tynnu sylw at themâu a dysgu ar draws prosiectau ar gyfer pob carfan darged. Er ein bod yn cydnabod nad y rhain yw'r unig garfanau sy'n cael trafferth gydag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac mae croestoriadedd ym mhob grŵp targed, er enghraifft bu Mencap NI yn gweithio gyda phobl ifanc ag anableddau dysgu, a gweithiodd AbilityNet mewn pentrefi ymddeol, roedd rhai themâu a chyffredinrwydd clir ar draws y prosiectau, yn ogystal â rhai gwahaniaethau clir o ran dulliau gweithredu. Ar sail yr hyn a ddysgwyd o'r gwaith hwn, mae pob adran yn cynnwys awgrymiadau Ofcom ar gyfer unrhyw un sy'n bwriadu cyflawni prosiectau yn y dyfodol i'r grŵp targed. Nid yw'r holl awgrymiadau'n unigryw i gyflawni prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau – yn hytrach, maen nhw'n ein hatgoffa o rai o'r ystyriaethau craidd i'w hystyried.

Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi'r prif heriau a'r gwersi a ddysgwyd o ran gwerthuso ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae'n cloi gyda chrynodeb o'r prif ganfyddiadau a gwersi, ac argymhellion ar gyfer comisiynu, cynllunio, gwerthuso ac adrodd ar brosiectau yn y dyfodol.

# Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Gwerthuso oedd un o egwyddorion sylfaenol y darn hwn o waith. Roeddem am ddeall a gafodd y prosiectau effaith ar y cyfranogwyr (ac os felly, beth oedd yr effaith hon), ac i gasglu'r hyn a ddysgwyd am ffyrdd effeithiol o ddarparu ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Drwy gydol yr adroddiad, rydym wedi darparu enghreifftiau lle'r oedd pob sefydliad wedi myfyrio ar ei ddarpariaeth ac wedi addasu mewn ymateb i'r angen a nodwyd ganddynt.

Roedd amrywiaeth o gymorth gwerthuso ar gael i gefnogi hyn (Atodiad A). Mae trosolwg o'r Cwestiynau Gwerthuso Allweddol (KEQs) ar gael yn Atodiad B (Impact KEQs) ac Atodiad C (Process KEQs).

Darparodd pob prosiect werthusiadau ar sail canlyniadau, a oedd yn ffocysu ar p'un a oedd newidiadau disgwyliedig penodol wedi digwydd ai peidio erbyn diwedd y rhaglen. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio arolygon cyn ac ar ôl yr arolygon, gyda rhai yn cynnwys cyfweliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws. Roedd y dull hwn yn fwyaf addas ar gyfer adnoddau ac amgylchiadau prosiectau a gomisiynwyd mewn cyfnod cyflawni cymharol fyr a phrysur, ond dylid nodi nad oedd yn caniatáu ar gyfer gwaith dilynol gyda chyfranogwyr y tu hwnt i'r gwaith o ddirwyn y prosiect i ben.

Mae'r holl brosiectau wedi coladu, dadansoddi ac adrodd ar eu canfyddiadau. Mae eu hadroddiadau terfynol ar gael ar wefan MSOM Ofcom.

Yn dilyn ymyriadau, adroddodd prosiectau am effeithiau cadarnhaol ar gyfer eu cyfranogwyr, gan gynnwys:

| | |
|---|---|
| **Plant a phobl ifanc** | • mwy o wybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o algorithmau a'u rôl o ran hyrwyddo cynnwys<br>• gwelliannau mewn lefelau llythrennedd newyddion, a hyder wrth adnabod 'newyddion ffug' a mathau eraill o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth<br>• tystiolaeth o sgiliau meddwl yn feirniadol ar waith (er nad oedd y gwaith ymchwil wedi'i gynllunio i weld a oedd hyn yn trosi'n ymddygiad mwy gwybodus ac ymholiadol ym mywydau ar-lein bob dydd y cyfranogwyr) |
| **Oedolion hŷn** | • mwy o sgiliau digidol a oedd yn galluogi oedolion hŷn i fynd ar-lein a chael gafael ar wasanaethau allweddol<br>• mwy o hyder o ran sut i adnabod, amddiffyn eu hunain rhag a/neu ymateb i fygythiadau a sgamiau ar-lein<br>• rhywfaint o awgrym bod mwy o sgiliau, hyder a mynediad at ddyfeisiau wedi cyfrannu yn y tymor byr at lai o arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ymysg oedolion hŷn |
| **Pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu** | • gwelliannau mewn gwybodaeth, sgiliau a hyder i gymryd rhan mewn gweithgarwch ar-lein a chadw'n ddiogel ar-lein (er bod pryderon ynghylch sgamio yn aml yn parhau, o bosibl oherwydd ymwybyddiaeth gynyddol o ddulliau sgamio posibl ar ôl yr hyfforddiant)<br>• manteision ffordd o fyw ac iechyd meddwl o ganlyniad i fwy o ddefnydd o wasanaethau ar-lein, fel cyrchu adloniant, dod o hyd i fargeinion a chadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau |

Yn fwy cyffredinol, arddangosodd y prosiectau fanteision gwreiddio gwerthuso mewn prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau drwy ddarparu tystiolaeth sy'n ychwanegu at y corff cynyddol o waith ymchwil ynghylch y ffordd orau o gefnogi grwpiau targed i wella eu hymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

# Prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau gyda phlant a phobl ifanc

**Tabl 2: Crynodeb o'r prosiect Plant a Phobl Ifanc**

| Sefydliad sy'n arwain y prosiect | Cyfranogwyr | Cyd-ddylunio | Math o weithgaredd | Gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â chyflwyno | Darpariaeth dyfeisiau / data* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Salford Foundation** | 328 o bobl ifanc | Ie | Chwe sesiwn un awr wythnosol yn cael eu cyflwyno wyneb yn wyneb mewn clybiau ieuenctid, ysgolion a lleoliadau cymunedol | Ie | Na |
| **Guardian Foundation** | 437 o rieni a phlant<br>25 o hwyluswyr cymunedol | Na | Sesiynau galw heibio i deuluoedd a gynhaliwyd gan lyfrgelloedd lleol | Ie | Na |
| **Praesidio Safeguarding** | 33 o blant a phobl ifanc | Ie | Cyflwynwyd gweithgareddau ar draws saith sesiwn wythnosol i dair carfan wahanol o blant mewn ysgolion | Na | Na |
| **ProMo Cymru** | 85 o bobl ifanc | Ie | Sesiynau grŵp wyneb yn wyneb yn cynnwys gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol a gemau mewn clybiau ieuenctid | Ie | Na |

*Data = Cardiau SIM a chynlluniau data i alluogi cyfranogwyr i fynd ar-lein.

## Pwyntiau cychwyn

Nododd prosiectau a oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ddiffyg ymwybyddiaeth feirniadol o gywirdeb a dilysrwydd cynnwys ar-lein a'r ffordd y caiff ei ddwyn i sylw defnyddwyr fel ffocws mwyaf priodol eu hymyriadau.

Roedd yr arolygon llinell sylfaen a gynhaliwyd ganddynt yn tueddu i gadarnhau'r rhagdybiaeth nad oedd gan lawer o'r plant a'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r prosiectau lawer o wybodaeth a dealltwriaeth o'r dechnoleg y tu ôl i hyrwyddo cynnwys (e.e. nodweddion perswadio sy'n cael eu gyrru gan algorithmau). Mewn rhai achosion, roedd y dystiolaeth sylfaenol yn dangos bod pobl ifanc 10-14 oed yn agored i oramcangyfrif eu gwybodaeth am nodweddion perswadio.

Roedd y dystiolaeth sylfaenol hon hefyd yn dangos bod gan blant a phobl ifanc ymwybyddiaeth gyfyngedig y gallai cynnwys fod yn gamarweiniol (boed yn fwriadol neu fel arall) ac y gallai fod yn niweidiol.

Roedd tystiolaeth sylfaenol arall yn dangos bod gan blant a phobl ifanc well dealltwriaeth o bynciau diogelwch ar-lein fel seiberfwlio a diogelwch cyfrineiriau, sy'n tueddu i gael eu haddysgu'n eang mewn ysgolion. Oherwydd hyn, canfu'r Salford Foundation fod cwestiynau cwis ar y pynciau hyn yn rhy hawdd i'r grŵp targed o bobl ifanc rhwng 10 ac 14 oed, a bod hyn yn golygu bod angen newid y ffordd y cafodd hyn ei fesur yn ddiweddarach yn y prosiect.

## Canlyniadau

Yn dilyn yr ymyriadau amrywiol, dywedodd plant a phobl ifanc fod ganddynt fwy o wybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o algorithmau a'u rôl o ran hyrwyddo a thargedu cynnwys, gan gynnwys sut gallai hyn fod o fudd i ddefnyddwyr ar-lein (gyda chynnwys wedi'i deilwra'n fwy penodol yn seiliedig ar eu diddordebau) a gweithredu mewn ffyrdd mwy negyddol (e.e. Drwy gynyddu siambrau adlais).

Roedd lefelau llythrennedd newyddion plant a phobl ifanc hefyd wedi gwella, fel y gwnaeth eu hyder i adnabod 'newyddion ffug' a mathau eraill o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod y cyfranogwyr yn fwy tebygol o edrych yn feirniadol ar wybodaeth a chynnwys ar-lein, ac arddangosiad ansoddol o sgiliau meddwl yn feirniadol ar waith. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r prosiectau'n casglu tystiolaeth ynghylch newid tymor hwy i sefydlu a oedd hyn yn trosi i ymddygiad mwy gwybodus ac ymholiadol ym mywydau ar-lein bob dydd y cyfranogwyr.

Bu tri phrosiect hefyd yn gweithio gyda gwahanol grwpiau o oedolion, i'w helpu i ddeall anghenion llythrennedd plant a phobl ifanc yn y cyfryngau a darparu cymorth ymarferol. Daethant o hyd i rywfaint o dystiolaeth ar ôl yr ymyriadau bod rhieni wedi gwella eu gwybodaeth a'u hyder eu hunain o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a newyddion, a hefyd bod hwyluswyr a hyfforddwyd i ddarparu ymyriadau (e.e. llyfrgellwyr, gweithwyr ieuenctid) wedi cynyddu eu gwybodaeth a'u hyder eu hunain o ran cefnogi pobl ifanc a theuluoedd gydag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau gan ddefnyddio adnoddau prosiect.[2]

[2] Nid oedd yn bosibl ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael i bennu i ba raddau yr oedd y cyfranogwyr hyn sy'n oedolion yn rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau a'r adnoddau newydd hyn ar waith i gefnogi plant a phobl ifanc.

# Gwersi a ddysgwyd

## Cynllunio ac ymgysylltu

Dim ond un prosiect oedd yn bwriadu gweithio mewn ysgolion i ddechrau. Fodd bynnag, yn y diwedd daeth pob sefydliad sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i weithio gydag ysgolion mewn rhyw ffordd. Roedd sefydliadau cyflawni o'r farn mai gweithio gydag ysgolion oedd yr unig ffordd o gyflawni’r prosiect gyda’r gynulleidfa darged, o fewn yr amserlen.

Hyd yn oed pan oeddent yn awyddus i gymryd rhan, nid oedd grwpiau a lleoliadau cymunedol bob amser yn gallu cefnogi prosiectau oherwydd cyllid a heriau staffio cysylltiedig, yn ogystal ag amserlenni gweithgareddau llawn. Roedd anfanteision eraill yn cynnwys peidio â gwybod faint o blant a phobl ifanc fyddai’n mynychu sesiynau neu a fyddai’r grŵp yn gyson wythnos ar ôl wythnos pe bai mwy nag un sesiwn.

## Anghenion a diddordebau’r grŵp targed

Canfu’r prosiectau ei bod yn bwysig ymchwilio’n drylwyr i lefelau presennol ymwybyddiaeth o’r cyfryngau a bylchau mewn gwybodaeth ymysg plant a phobl ifanc cyn cynllunio ymyriad. Roedd risg o danamcangyfrif lefelau presennol o wybodaeth pe na bai deunyddiau’n cael eu croesgyfeirio â’r hyn sydd eisoes yn cael ei ddysgu mewn ysgolion, colegau a thrwy brosiectau lleol eraill.

Roedd cyd-ddylunio, ymgynghori a phrofi defnyddwyr yn helpu i osgoi gwneud rhagdybiaethau ynghylch pa bynciau oedd o’r diddordeb mwyaf. Roedd dewis ffocysu ar feysydd nad ydynt yn cael eu haddysgu mewn ysgolion ar hyn o bryd (pynciau fel 'perygl dieithriaid ar-lein' a 'seiberfwlio') hefyd yn helpu gydag ymgysylltiad parhaus.

**Sbotolau: treialu, mireinio a gwella gweithgareddau drwy baneli profi**

Nod **Praesidio Safeguarding** oedd gwella dealltwriaeth pobl ifanc o effaith technoleg berswadio ar eu bywydau digidol. Hwylusodd y prosiect gyfres o 'baneli profi' disgyblion a staff addysgu yn gynnar yn ystod prosiectau, lle gwnaethant dreialu detholiad o ddulliau a gweithgareddau dysgu posibl:

*“Rhoddodd hyn ddealltwriaeth bwysig i ni o’r hyn a fyddai’n gweithio yn ein grwpiau ymyrraeth, pa weithgareddau y byddai disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iddynt, a pha rai oedd yn Lali effeithiol neu’n llai atyniadol. Roedd y sesiynau untro hyn yn ein galluogi i gael adborth gwerthfawr ar ein prosiect a gwneud addasiadau a golygiadau perthnasol cyn dechrau ar y rhaglen o grwpiau ymyrraeth.”*

***Addysgu plant a phobl ifanc am nodweddion perswadio: adroddiad gwerthuso Ebrill 2024***

## Lleoliadau cyflenwi

Canfu sefydliadau fod angen modelau cyflenwi hyblyg, er mwyn gweithio ar draws gwahanol fathau o leoliadau cymunedol. Roedd darpariaeth fwy strwythuredig yn tueddu i weithio orau drwy leoliadau ysgol, tra bod modelau galw heibio mwy anffurfiol yn tueddu i lwyddo mewn llyfrgelloedd neu glybiau ieuenctid, gan adlewyrchu defnydd teuluoedd a phobl ifanc ohonynt.

Roedd prosiectau'n gweld bod gweithio drwy ysgolion a lleoliadau cymunedol yn haws lle'r oedd ganddynt berthnasoedd a oedd yn bodoli eisoes cyn y prosiect. Roedd yn haws ymgysylltu â llyfrgelloedd na lleoliadau cymunedol eraill gan eu bod wedi arfer cynnig gweithdai a hyfforddiant.

Roedd gweithio'n anuniongyrchol drwy leoliadau cymunedol yn peri rhai heriau o'i gymharu â phrosiectau oedd yn cyflawni'n uniongyrchol eu hunain. Er enghraifft, roedd nifer y cyfranogwyr yn aml yn anrhagweladwy, a gallai staff a gwirfoddolwyr mewn lleoliadau cymunedol recriwtio cyfranogwyr y tu allan i'r ystod oedran targed. Er bod hyblygrwydd lleoliadau cymunedol yn her i ddarparu prosiectau strwythuredig, roeddent yn gallu cynnal trafodaethau anffurfiol, e.e. gwnaeth Promo Cymru ymgysylltu â grwpiau ieuenctid fel rhan o'u dull cyd-gynhyrchu.

Yn ogystal, roedd gan leoliadau cymunedol wahanol gyfleusterau a mynediad at dechnoleg ac adnoddau, a oedd yn golygu bod angen addasu ymyriadau i gyd-fynd â phob sefyllfa newydd. Roedd hyn yn golygu popeth o ddarparu dyfeisiau i gael deunydd argraffedig yn barod rhag ofn, a sicrhau bob amser bod opsiwn arall ar gael ar gyfer cyflenwi os bydd newid i'r adnoddau neu'r gofod sydd ar gael. Manteision gweithio mewn lleoliadau cymunedol yw'r staff a'r gwirfoddolwyr llawn cymhelliant sy'n adnabod eu cymunedau a'u hanghenion orau. Felly, mae'n debyg mae'r fethodoleg fwyaf effeithiol yw model "hyfforddi'r hyfforddwr", er bod yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i ganiatáu ar gyfer heriau staffio, ac i fagu hyder yn ogystal â sgiliau, yn sylweddol. Fel y mae'r astudiaeth achos isod yn ei amlinellu, efallai y bydd hyfforddwyr yn teimlo'n anghyfforddus o ran cael eu gweld fel "arbenigwyr" ar bwnc penodol.

**Sbotolau: cynhyrchu nifer o dempledi gweithdai i helpu hwyluswyr i deimlo'n fwy hyderus**

Nod **The Guardian Foundation** oedd cefnogi plant a'u teuluoedd i werthuso'r cyfryngau a newyddion yn feirniadol drwy hyfforddi gweithwyr proffesiynol i gynnal gweithdai ar draws lleoliadau cymunedol, gan gynnwys llyfrgelloedd. Fodd bynnag, roedd mewnwelediadau cynnar gan banel arbenigol yn awgrymu efallai nad yw llyfrgellwyr yn teimlo'n hyderus wrth gynnal sesiynau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau a newyddion, ac y byddent yn poeni am gael eu hystyried yn arbenigwyr yn y maes pwnc hwn:

*"Datblygwyd ffyrdd amgen o gyflwyno'r gweithdy i fynd i'r afael â ffactorau sy'n dod i'r amlwg o ran hyder, capasiti a gwahanol gynulleidfaoedd sy'n mynychu sesiynau. Cafodd dyluniad y gweithdy ei addasu i gynnig fersiwn dan arweiniad y cyfranogwyr, yn ogystal â fersiwn fwy strwythuredig dan arweiniad hwylusydd, gan ganiatáu i hwyluswyr llai hyderus fod mor ymarferol neu anymarferol ag yr oedden yn dymuno bod."*

***Gwerthuso gweithdai teulu NewsWise: ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn lleoliadau cymunedol***

## Sesiynau, gweithgareddau a deunyddiau

Nododd prosiectau fod gweithdai wedi'u hwyluso yn ddull effeithiol o gefnogi ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, ac roedd gweithgareddau ac adnoddau o ansawdd uchel yn hanfodol i sicrhau bod sesiynau'n ddiddorol ac yn cael effaith ar blant a phobl ifanc.

Roedd sesiynau rhyngweithiol a oedd yn defnyddio gweithgareddau hwyliog, cinesthetig a oedd yn cynnwys nodweddion chwarae gemau yn gweithio orau gyda phlant a phobl ifanc. Roedd y dulliau hyn yn helpu i wahaniaethu gweithgareddau o wersi ysgol, yn enwedig pan oeddent yn cael eu cynnal mewn clybiau ysgol neu dros y penwythnos neu yn ystod y gwyliau.

Roedd y gweithgareddau hefyd yn gweithio'n dda pan gawsant eu teilwra i gynnwys cynnwys perthnasol go iawn sy'n seiliedig ar y llwyfannau roedd plant a phobl ifanc yn eu defnyddio'n rheolaidd, yn ogystal â ffocysu ar faterion cyfoes. Ar yr un pryd, roedd yn bwysig eu bod yn briodol i oedran y plant.

Yn ogystal, nododd prosiectau bwysigrwydd archwilio'r byd ar-lein mewn mannau diogel ac anfeirniadol. Canfu rhai prosiectau fod pobl ifanc yn ymgysylltu'n well â deunydd sy'n ffocysu ar gyfleoedd cadarnhaol neu greadigol ar-lein, yn hytrach na deunydd sy'n ffocysu ar risgiau'n unig.

**Sbotolau: ymateb i adborth sy'n dod i'r amlwg i sicrhau gweithgareddau effeithiol**

Nod **ProMo Cymru** oedd gwella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymhlith pobl ifanc rhwng 11 ac 14 oed ym Mlaenau Gwent. Defnyddiodd y prosiect fethodoleg cynllunio gwasanaeth – dull ailadroddol lle mae dyluniad y prosiect yn cael ei fireinio'n barhaus ar sail adborth ar ôl pob gweithgaredd. Roedd hyn yn eu galluogi i nodi heriau a rhoi atebion ar waith yn ystod oes y prosiect, er enghraifft:

*"Yn y gweithdai cynnar, fe wnaethom gydnabod bod y cyfranogwyr yn ei chael hi'n anodd deall y cysyniad o 'siambrau adlais', term hollbwysig yng nghyd-destun algorithmau cyfryngau cymdeithasol. Trwy gyflwyno cymhorthion gweledol gyda diffiniadau clir, a chyfeirio atynt trwy gydol y gweithdai, aethom i'r afael â'r bwlch hwn mewn dealltwriaeth. Erbyn y gweithdy olaf, arddangosodd y cyfranogwyr allu llawer gwell i egluro'r cysyniad o siambrau adlais."*

***Ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y gymuned ym Mlaenau Gwent: adroddiad prosiect***

## Awgrymiadau Ofcom i gefnogi plant a phobl ifanc

- Cynlluniwch amserlenni digon hir i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth gyda sefydliadau ieuenctid lleol, yn ogystal â deall eu hanghenion, eu galluoedd a'r potensial ar gyfer partneriaeth.
- Defnyddiwch ddulliau cyd-ddylunio a pheilota i wirio synnwyr gwaith ymchwil anghenion cychwynnol a sicrhau bod ymyriadau'n cael eu targedu'n briodol o ran lefel a chynnwys (gan gynnwys adolygu yn erbyn y cyfleoedd eraill sydd gan blant a phobl ifanc i gyrchu cymorth ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, e.e. yn yr ysgol neu drwy brosiectau eraill sydd ar gael yn lleol).
- Gweithiwch drwy leoliadau ffurfiol gyda gweithgareddau sydd wedi'u hamserlennu a phatrymau presenoldeb rheolaidd (e.e. ysgolion) os yw'n bwysig sicrhau cyrhaeddiad ac ymgysylltiad, yn hytrach na lleoliadau gyda darpariaeth galw heibio (fel clybiau ieuenctid a llyfrgelloedd).
- Wrth weithio mewn lleoliadau cymunedol, mae model hyfforddi'r hyfforddwr yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol ac, er mwyn cyflawni hyn, mae angen buddsoddiad sylweddol o ran amser.
- Byddwch yn ymwybodol o'r dechnoleg a'r adnoddau sydd ar gael mewn lleoliadau cymunedol ac addaswch y ddarpariaeth i gyd-fynd â nhw os oes angen. Hefyd, gwnewch yn siŵr bod gennych "gynllun wrth gefn" ar gyfer lleoliadau anffurfiol lle mae'n anoddach rheoli'r amgylchedd.
- Gwnewch yn siŵr bod y gweithgareddau'n hwyliog, yn rhyngweithiol, yn ddiddorol ac yn ymgorffori cynnwys bywyd go iawn. Pan fo'n bosibl, dechreuwch gyda gweithgareddau digidol creadigol a chyflwyno'r elfennau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau iddynt.
- Gweithiwch gyda staff yn y gymuned i asesu pa mor gyfforddus ydynt gyda phynciau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, darparwch hyfforddiant lle bo angen a helpwch i reoli eu disgwyliadau (a disgwyliadau eu grŵp targed) o ran y cymorth y gallant ei ddarparu.



# Prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau gydag oedolion hŷn

**Tabl 3: Crynodeb o'r prosiect ar gyfer oedolion hŷn**

| Sefydliad sy'n arwain y prosiect | Cyfranogwyr | Cyd-ddylunio | Math o weithgaredd | Gwirfoddolwyr | Darpariaeth dyfeisiau / data* |
|---|---|---|---|---|---|
| **Norfolk Libraries** | 392 o oedolion hŷn | Na | Sesiynau galw heibio un-i-un ac apwyntiadau wyneb yn wyneb y gellir eu trefnu mewn canghennau | Na | Na |
| **Age UK East London** | 85 o oedolion hŷn | Na | Cyrsiau digidol 6-8 wythnos a sesiynau galw heibio digidol | Na | Ie |
| **Advice NI** | 105 o oedolion hŷn<br>10 o hyrwyddwyr digidol | Na | Hyfforddiant hyrwyddwyr digidol achrededig a hyfforddiant wedi'i arwain gan hyrwyddwyr mewn cymunedau | Ie | Ie |
| **Red Chair Highland** | 290 o oedolion hŷn | Na | Cymorth un-i-un a sesiynau galw heibio, gweithdai grŵp, sesiynau allgymorth cymunedol a chymorth o bell | Na | Ie |
| **West Nottinghamshire College** | 72 o oedolion hŷn | Na | Cymysgedd o sesiynau un-i-un, pâr a grŵp un awr o hyd a gynhelir bob wythnos dros bedair wythnos | Na | Na |

*Data = Cardiau SIM a chynlluniau data i alluogi cyfranogwyr i fynd ar-lein.

## Pwyntiau cychwyn

Nododd y rhan fwyaf o brosiectau sy'n gweithio gydag oedolion hŷn mai sgiliau digidol isel a bygythiadau posibl camwybodaeth a sgamiau ar-lein (gan gynnwys negeseuon e-bost gwe-rwydo, gwefannau twyllodrus, a dwyn hunaniaeth) yw'r ffocws mwyaf priodol ar gyfer eu hymyriadau.

Trwy asesiadau sylfaenol, canfu'r prosiectau fod gan oedolion hŷn, yn gyffredinol, lefelau llawer is o hyder a sgiliau digidol na'r disgwyl, diffyg mynediad at offer digidol da, ac ofn defnyddio'r rhyngrwyd (e.e. oherwydd y risg o sgamiau).

Roedd y prosiect Theories of Change yn tynnu sylw at y ffaith bod canlyniadau'r problemau hyn yn cynnwys diffyg mynediad at wasanaethau allweddol fel bancio, gwasanaethau iechyd a siopa, a llwyfannau cyfathrebu sy'n helpu pobl i gysylltu ag eraill, yn ogystal â mwy o risg o ddioddef sgam pan fyddant ar-lein.

# Canlyniadau

Yn dilyn yr ymyriadau, dywedodd oedolion hŷn eu bod wedi gwella eu sgiliau i fynd ar-lein a chael gafael ar wasanaethau allweddol. Adroddodd nifer o brosiectau fod oedolion hŷn yn gallu cwblhau mwy o dasgau digidol (e.e. Anfon neges e-bost, siopa ar-lein ac ati) a'u bod wedi dechrau defnyddio dyfeisiau'n amlach. Roedd y grŵp hwn o brosiectau yn awyddus i ddarparu dyfeisiau benthyg neu gymorthdaledig i gyfranogwyr, a gwnaethant gysylltu â'r banciau data a dyfeisiau cenedlaethol.

Yn ogystal, dywedodd y prosiectau fod gan oedolion hŷn fwy o hyder o ran sut i adnabod, amddiffyn eu hunain rhag a/neu ymateb i fygythiadau a sgamiau ar-lein. Roedd hyn yn aml yn cynnwys mynediad at gymorth dyfeisiau, fel gosod meddalwedd diogelwch ar ddyfeisiau a nodweddion dilysu dau ffactor ar gyfrifon.

Fodd bynnag, gall fod anghysondeb rhwng hyder a gallu oedolion hŷn i adnabod sgamiau. Tynnodd Norfolk Libraries sylw at fwlch posibl rhwng hyder cyfranogwyr o ran adnabod negeseuon e-bost sgam a'u gallu gwirioneddol i'w hadnabod. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i ganolbwyntio nid yn unig ar wella hyder a sgiliau ymwybyddiaeth pobl o'r cyfryngau, ond hefyd ar fabwysiadu dull metawybyddol, gan ffocysu ar alinio lefel sgiliau pobl â lefel eu hyder.

Er bod amserlenni prosiectau'n cyfyngu ar y graddau y gellid mesur data canlyniadau tymor hir, roedd rhai awgrymiadau bod mwy o sgiliau, hyder a mynediad at ddyfeisiau eisoes wedi cyfrannu at lai o arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ymysg oedolion hŷn.

# Gwersi a ddysgwyd

## Cynllunio ac ymgysylltu

Roedd hi'n anoddach recriwtio oedolion hŷn i gymryd rhan mewn prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau nag yr oedd y sefydliadau wedi'i ragweld, yn bennaf oherwydd nad oeddent yn sylweddoli maint y gwrthwynebiad i gyfryngau ar-lein. Canfu'r prosiectau fod llawer o oedolion hŷn yn amheus o dechnoleg, ac yn amheus o'r hyn y gallent ei ddysgu. Roedd yr oedolion hŷn yn teimlo bod y risgiau'n drech na'r manteision.

Canfu'r prosiectau fod recriwtio'n fwy llwyddiannus pan oeddent yn ymgysylltu ag oedolion hŷn ar sail eu hanghenion neu eu diddordebau presennol. Yn aml, roedd hyn yn ymwneud â chyfranogwyr a oedd eisiau datrysiad syml i angen ffordd o fyw penodol (e.e. i arbed arian), anawsterau gyda dyfais neu eisiau dysgu tasg ar-lein benodol. Byddai profiad a oedd yn tynnu sylw at fantais gadarnhaol o fod ar-lein wedyn yn arwain at fwy o ymwneud a/neu ymgysylltu am gyfnod hirach.

Yn unol â thystiolaeth ehangach, canfu prosiectau fod gweithgareddau a gynhaliwyd mewn canolfannau cymdeithasol lleol neu amgylcheddau anffurfiol eraill (e.e. canolfannau cymunedol) yn helpu i ymgysylltu â rhai oedolion hŷn. Roedd hyn yn apelio at gymhellion cymdeithasol i wneud, cyfarfod a threulio amser gyda ffrindiau.

Roedd recriwtio drwy aelodau o'r teulu hefyd yn llwybr effeithiol (e.e. targedu plant neu wyrion ar y cyfryngau cymdeithasol, a fyddai wedyn yn gwneud ymholiad uniongyrchol neu'n atgyfeirio'r oedolyn hŷn), yn yr un modd â dulliau mwy traddodiadol ac anffurfiol sy'n ffocysu ar feithrin perthynas.

## Anghenion a diddordebau'r grŵp targed

Cynnwys a oedd yn ffocysu ar sut i adnabod ac osgoi sgamiau oedd un o'r pynciau mwyaf poblogaidd ymysg oedolion hŷn, gan mai bod yn destun sgam oedd un o'u prif bryderon.

Roedd rhai prosiectau hefyd yn goramcangyfrif sgiliau digidol yr oedolion hŷn roeddent yn ymgysylltu â nhw. Roedd hyn yn golygu eu bod yn ffocysu mwy yn y pen draw ar fynediad a chynhwysiant digidol o gymharu â meysydd ymwybyddiaeth o'r cyfryngau eraill neu'n darparu cymorth dros gyfnod hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

## Lleoliadau cyflenwi

Roedd yn hanfodol darparu cymorth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mor agos â phosibl at ble mae oedolion hŷn yn byw neu mewn lleoliadau sy'n rhan o'u harferion bob dydd (er enghraifft, mynd i'r llyfrgell). Roedd hyn yn gwneud cymryd rhan mor hawdd â phosibl o ran amser, cysur a thrafnidiaeth.

Roedd cymorth o bell dros y ffôn neu ar-lein hefyd yn hanfodol i bobl mewn ardaloedd mwy gwledig neu sydd â phroblemau symudedd. Fodd bynnag, efallai nad yw'n syndod bod cymorth o bell ond yn llwyddiannus lle'r oedd gan bobl lefel benodol o hyder a sgiliau digidol, neu a oedd wedi dechrau adeiladu'r rhain drwy gymorth wyneb yn wyneb yn gyntaf. O'r pedwar sefydliad a oedd wedi bwriadu darparu cymorth ar-lein, dim ond Red Chair Highland oedd wedi llwyddo i wneud hyn.

Roedd gweithio mewn lleoliadau cymunedol yn galluogi oedolion hŷn i brofi effeithiau cymdeithasol cadarnhaol hefyd drwy brosiectau, gwneud ffrindiau newydd a/neu weld ffrindiau o gwmpas gweithgareddau.

**Sbotolau: adeiladu sgiliau sylfaenol i alluogi cymorth o bell**

Nod **Red Chair Highland** oedd cefnogi oedolion hŷn i we-lywio drwy'r dirwedd ddigidol yn ddiogel ac yn hyderus. Roeddent yn darparu ystod o wasanaethau cymorth, gan gynnwys cymorth o bell dros y ffôn, e-bost neu alwadau fideo i unigolion nad oeddent yn gallu cael gafael ar wasanaethau ffisegol oherwydd cyfyngiadau daearyddol neu gyfyngiadau eraill. Fodd bynnag, roedd eu gwerthusiad terfynol yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd cymorth o bell yn effeithiol ym mhob sefyllfa:

*"Tra'n llwyddiannus i'r rheini sydd â phrofiad blaenorol o gymorth wyneb yn wyneb, roedd dulliau cymorth o bell yn wynebu heriau o ran mynd i'r afael â materion llythrennedd digidol ar gyfer y rheini sydd heb sgiliau digidol sylfaenol. Canfuwyd bod cymorth digidol o bell yn aneffeithiol ar y cyfan lle nad oedd cyfranogwyr eisoes wedi cael cymorth un-i-un i'w helpu i adeiladu lefel benodol o lythrennedd digidol yn gyntaf."*

***Gwerthuso llwyddiant gweithgareddau ymyrraeth ddigidol wrth gefnogi oedolion hŷn o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein yn Ucheldiroedd yr Alban, Ebrill 2024***

## Sesiynau, gweithgareddau a deunyddiau

Roedd sesiynau un-i-un yn gweithio orau gydag oedolion hŷn a oedd â llai o hyder neu alluoedd is. Roedd hyn yn galluogi cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn unol ag anghenion yr unigolyn.

**Sbotolau: defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i helpu i oresgyn apathi**

Nod **Norfolk Library Service** oedd helpu oedolion hŷn i fynd ar-lein, magu eu hyder wrth ddefnyddio dyfeisiau digidol, ac ehangu eu defnydd o'r rhyngrwyd drwy sesiynau galw heibio, cymorth un-i-un a chymorth grŵp. I ddechrau, roedd y diddordeb yn y prosiect yn llawer is na'r disgwyl, a'r rheswm am hynny, yn ôl y staff, oedd oherwydd ofn am dechnoleg a mynd ar-lein a lefelau isel o ddealltwriaeth am berthnasedd a manteision posibl defnyddio'r rhyngrwyd.

*"Datblygodd staff ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â hyn, er enghraifft drwy ofyn i gwsmeriaid osod nodau... ar gyfer eu sesiynau ymlaen llaw. Roedd hefyd yn ddefnyddiol cael gwybod am y person yn gyntaf, darganfod eu hoff a'u cas bethau, a defnyddio'r rhain i ennyn eu diddordeb. Soniodd un aelod o staff am ddarganfod bod cwsmer yn gogydd a garddwr brwd, felly dechreuodd drwy ddangos iddynt sut i ddod o hyd i ryseitiau ar-lein a defnyddio Pinterest i ddod o hyd i ysbrydoliaeth ar gyfer garddio."*

***Adroddiad diwedd prosiect: ar-lein, diogel ac mewn rheolaeth, Ebrill 2024***

Roedd sesiynau grŵp hefyd yn boblogaidd ond roeddent yn llai effeithiol lle'r oedd gan gyfranogwyr ystod eang o alluoedd digidol. Gallai'r sesiynau gael eu llesteirio'n aml gan ddysgwyr yn symud ymlaen ar wahanol gyfraddau, neu fod â llawer o gwestiynau nad oedd modd ymdrin â nhw yn y sesiwn ei hun, gan dynnu sylw at yr angen i hwyluswyr wahaniaethu rhwng gweithgareddau ar sail gallu.

Ar gyfer y ddau fath o sesiwn, roedd cymorth dilynol yn hanfodol i oedolion hŷn a oedd â chwestiynau ar ôl y sesiwn, neu a oedd wedi datblygu pryderon newydd neu wedi dod ar draws problemau eraill o ganlyniad i'w gweithgarwch ar-lein newydd neu gynyddol. Roedd sefydliadau a gomisiynwyd yn caniatáu ar gyfer hyn mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys darparu taflenni "atgoffa" wedi'u hargraffu neu sesiynau galw heibio parhaus ar gyfer gwaith dilynol parhaus. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd penodol cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd prosiectau wrth ddarparu gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau gydag oedolion hŷn.

Roedd modelau hyrwyddwyr digidol yn gweithio'n dda gydag oedolion hŷn gan fod pobl â phrofiadau byw tebyg yn aml yn cael eu hystyried yn fwy perthnasol nag 'arbenigwyr ym maes technoleg'. Roedd Advice NI hefyd yn arbennig o lwyddiannus o ran recriwtio gwirfoddolwyr a allai gefnogi cyfranogwyr yn eu mamiaith, gan gynnwys Pwyleg a Chantoneg, gan bwysleisio ymhellach sut y gall gwirfoddolwyr yn aml ddarparu gwell cefnogaeth nag arbenigwyr mwy ffurfiol.

**Sbotolau: defnyddio dull cymorth gan gymheiriaid i oresgyn stigma neu gywilydd**

Nod **Advice NI** oedd cefnogi oedolion hŷn i ddatblygu mwy o hyder wrth gyflawni tasgau ar-lein sylfaenol a phwysig drwy ddull hyfforddi'r hyfforddwr. Nododd y prosiect lefelau uwch o ofn am gyfryngau ar-lein na'r disgwyl, a gwelodd sut roedd gweithgareddau a oedd yn annog dull cymorth gan gymheiriaid mewn gweithdai yn hanfodol er mwyn creu lle diogel:

*"Rhan o effeithiolrwydd yr hyfforddiant oedd y gallu i bobl ryngweithio, nid o reidrwydd gyda'r Hyrwyddwr Digidol, ond ymysg ei gilydd, gan adrodd straeon am eu problemau a'u materion... Roedd y tasgau rhyngweithiol yn ysgogi trafodaethau ac yn darparu amgylchedd dibynadwy i ddysgwyr lle roedden nhw'n teimlo'n ddiogel i siarad. Fel y dywedodd un Hyrwyddwr Digidol, 'roedd rhai dysgwyr yn dangos llawer o ddewrder wrth gyfaddef eu bod wedi cael eu sgamio neu wedi colli arian ar-lein; roedd angen dewrder i rannu hynny. Ond roedd rhannu'r profiadau hynny yn addysgol i bawb'."*

***Prosiect digidol Rights4Seniors: adroddiad gwerthuso, Ebrill 2024***

## Awgrymiadau Ofcom i gefnogi oedolion hŷn

- Awgrymiadau Ofcom i gefnogi oedolion hŷn
- Canolbwyntiwch yr ymgysylltiad ar anghenion uniongyrchol (e.e. arbed arian) neu gymhellion eraill (e.e. cymdeithasu) ac osgowch ymrwymiadau tymor hwy (e.e. cyrsiau). Gall plant neu wyrion fod yn effeithiol wrth recriwtio aelodau hŷn o'r teulu.
- Anogwch agwedd gadarnhaol tuag at gyfryngau ar-lein drwy dynnu sylw at y manteision a mynd i'r afael yn uniongyrchol ag unrhyw agweddau negyddol sy'n atal ymgysylltu (e.e. drwy weithdai neu gymorth gan gymheiriaid).
- Hysbysebwch a blaenoriaethwch y ddarpariaeth mewn lleoliadau cymunedol cymdeithasol cyfarwydd sy'n agos at ble mae'r cyfranogwyr yn byw a/neu sy'n rhan o'u harferion rheolaidd.
- Adolygwch lefelau llythrennedd digidol unigol (o ran mynediad a chynhwysiant) cyn sesiynau ac, ar gyfer sesiynau grŵp, naill ai clystyrwch y cyfranogwyr mewn grwpiau lefel tebyg neu wahaniaethwch y gweithgareddau, gan ddarparu gwahanol "lefelau" o'r un gweithgaredd fel ei fod yn hygyrch i bawb sy'n cymryd rhan.
- Blaenoriaethwch fodelau cymorth wyneb yn wyneb a hybrid – neu gynhaliwch adolygiad gofalus o lefelau llythrennedd digidol cyn ystyried cymorth o bell.
- Sicrhewch bod cymorth dilynol ar gael i oedolion hŷn ar ôl sesiynau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gallai hyn gynnwys adnoddau wedi'u hargraffu, cymorth wedi'i gyfeirio a/neu sesiynau galw heibio.



# Prosiectau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau gyda phobl anabl a phobl ag anableddau dysgu

**Tabl 4: Crynodeb o'r prosiect i bobl anabl a phobl ag anableddau dysgu**

| Sefydliad sy'n arwain y prosiect | Cyfranogwyr | Cyd-ddylunio | Math o weithgaredd | Gwirfoddolwyr | Darpariaeth dyfeisiau / adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mencap NI** | 87 o bobl ifanc ag anabledd dysgu<br>19 o rieni | Na | Sesiynau grŵp ymwybyddiaeth o'r cyfryngau wedi'u hychwanegu at y rhaglen iechyd a lles bresennol | Ie | Na |
| **Mencap Liverpool & Sefton** | 83 o bobl ifanc ag anabledd dysgu<br>1 hyrwyddwr digidol | Ie | Sesiynau grŵp a fideos addysgol ar-lein wedi'u creu gan Hyrwyddwr Digidol | Ie | Na |
| **AbilityNet** | 183 o breswylwyr<br>33 aelod o staff | Na | Cyfres o fodiwlau hyfforddi a gyflwynir mewn lleoliadau tai â chymorth | Ie | Ie |
| **The Brain Charity** | 258 o bobl niwrowahanol yn eu harddegau<br>191 o ofalwyr neu unigolion sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol | Na | Gweithdai grŵp ar bynciau gwahanol | Na | Na |

## Pwyntiau cychwyn

Nododd prosiectau sy'n gweithio gyda phobl anabl a phobl ag anableddau dysgu y bygythiadau posibl o ran camwybodaeth ar-lein (e.e. damcaniaethau cynllwynio, newyddion ffug) a sgamiau (e.e. meithrin perthynas amhriodol ar-lein, swyno trwy dwyll) fel y prif ffocws ar gyfer eu hymyriadau.

Drwy waith ymchwil cwmpasu ac asesiadau sylfaenol, fe wnaethant ganfod bod pobl yn wynebu nifer o rwystrau allweddol mewn perthynas â defnydd diogel ac effeithiol o wasanaethau ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys lefelau isel o sgiliau digidol, diffyg hyder a bod yn agored i sgamiau, camwybodaeth ac ideolegau eithafol.

Roedd rhai pobl ag anabledd dysgu hefyd yn wynebu heriau o ran defnyddio dyfeisiau, fel y sgiliau echddygol manwl / sylfaenol cyfyngedig sydd eu hangen i weithredu dyfeisiau, yn ogystal ag anhawster deall technoleg a chynnwys, a deall y 'rheolau ymgysylltu' ar gyfer cynnwys digidol.

Roedd rhai unigolion niwrowahanol wedi'i chael hi'n anodd nodi pa wybodaeth sy'n ddibynadwy heb gymorth, ac roedd cyfranogwyr yn anghymesur o debygol o fod mewn perygl o gael eu twyllo gan sgamiau ar-lein, meithrin perthynas amhriodol ar-lein a chredoau eithafol, fel damcaniaethau cynllwyn a'r manosffer.

# Canlyniadau

Yn dilyn yr ymyriadau, gwelodd y rhan fwyaf o bobl anabl a phobl ag anableddau dysgu welliannau yn eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hyder i gymryd rhan mewn gweithgarwch ar-lein a chadw'n ddiogel ar-lein.

Yn benodol, roedd pobl yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch eu gallu i nodi bygythiadau a sgamiau ar-lein. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch sgamio yn aml yn parhau, o bosibl oherwydd ymwybyddiaeth gynyddol o ddulliau sgamio posibl ar ôl yr hyfforddiant.

Yn ogystal, roedd rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y byddai prosiectau'n darparu manteision ffordd o fyw ac iechyd meddwl o ganlyniad i fwy o ddefnydd o wasanaethau ar-lein, fel cael gafael ar adloniant, dod o hyd i fargeinion a chadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Canfu nifer o brosiectau a oedd hefyd yn gweithio gyda chefnogwyr pobl anabl – fel rhieni, gofalwyr teulu a staff gofal – dystiolaeth bod y bobl hyn hefyd yn cynyddu eu hyder a'u gallu i fynd ar-lein, amddiffyn eu hunain a darparu gwell cefnogaeth i'r person yr oeddent yn gofalu amdano.

# Gwersi a ddysgwyd

## Cynllunio ac ymgysylltu

Roedd prosiectau'n wynebu heriau recriwtio sylweddol, er bod y gwaith cwmpasu cychwynnol yn awgrymu y byddai galw sylweddol am gyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau am ddim. Pan oedden nhw'n siarad am "ymwybyddiaeth o'r cyfryngau", canfu The Brain Charity bod lefelau ymgysylltu yn isel, felly fe wnaethon nhw newid y dull gweithredu. Gan weithio gyda sefydliadau lleol, fe wnaethant nodi pryderon penodol ynghylch gwreig-gasineb ar-lein a gweithio i fynd i'r afael â'r angen hwn, gan arwain at lawer mwy o ymgysylltu.

Roedd partneriaethau â sefydliadau a oedd â chysylltiadau dibynadwy â grwpiau targed yn hanfodol i ymgysylltu, ond nid oeddent bob amser yn llwybr sicr. Gallai partneriaethau fod yn gymhleth lle'r oedd gan wahanol bartïon flaenoriaethau gwahanol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd sgyrsiau cynllunio cynnar i sefydlu nodau, cyfrifoldebau a chytundeb ar y cyd.

Nododd prosiectau fod rhai pobl ifanc anabl a phobl ag anableddau dysgu naill ai'n teimlo'n chwithig i gyfaddef bod angen cymorth arnynt neu nad oeddent yn ymwybodol o'u hanghenion cymorth. O ganlyniad, roedd rhannu negeseuon sensitif yn arbennig o bwysig i'r grŵp targed hwn, gan gynnwys osgoi jargon technegol a therminoleg ddigidol.

**Sbotolau: cefnogi dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd gyda chymorth gwirfoddolwyr wedi'i deilwra**

Nod **AbilityNet** oedd cefnogi trigolion sy'n byw mewn pentrefi preswyl i ddefnyddio eu dyfeisiau, i ddysgu sgil ddigidol ac i nodi, osgoi ac ymateb i sgamiau ar-lein. Trwy sesiynau peilot cynnar, nodwyd bod lefelau hyder a gwybodaeth rhai preswylwyr yn llawer is na'r disgwyl, ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar yr unigolion hyn:

"Trwy'r sesiynau peilot, nodwyd bod y preswylwyr yn cael eu drysu gan dechnoleg syml hyd yn oed... Roedd cyflwyno sesiynau un-i-un wedi'u teilwra gyda gwirfoddolwyr yn hanfodol er mwyn cyflawni ein canlyniadau."

***ConnectingU With Confidence: pontio'r bwlch gyda sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau digidol, Ebrill 2024***

## Anghenion a diddordebau'r grŵp targed

Roedd gan bobl ifanc ag anableddau dysgu ddiddordeb mewn pynciau fel deall ôl troed digidol, deallusrwydd artiffisial (AI) a diogelu rhag niwed ar-lein, ac roedd gan bobl â chyflyrau niwrolegol fwy o ddiddordeb mewn pynciau fel newyddion ffug ac ideolegau peryglus.

Roedd y cyfranogwyr mwy hyderus yn ddigidol yn tueddu i fynegi diddordeb mewn sesiynau mwy cymhleth nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Mewn rhai achosion, nid oedd cymaint o bresenoldeb yn y sesiynau i rieni ag yr oedd prosiectau wedi gobeithio. Roedd diffyg gofal plant i blant nad oeddent yn cymryd rhan yn y prosiect yn cael ei ystyried yn un o'r prif resymau dros hyn, gan dynnu sylw at yr heriau ymarferol y mae angen eu hystyried wrth ymgysylltu â rhieni a gofalwyr.

**Sbotolau: creu mwy o gynnwys wedi'i dargedu sy'n cael ei arwain gan anghenion drwy ddylunio seiliedig ar brofiadau bywyd**

Nod **Mencap** oedd helpu pobl ag anableddau dysgu i gynyddu eu gallu i adnabod ac ymateb i gynnwys niweidiol, gwella eu hymwybyddiaeth o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, a datblygu gwytnwch tuag at sgamiau ar-lein. Roedd y prosiect yn seiliedig ar waith ymchwil cwmpasu i nodi pa bynciau y dylai gweithdai ffocysu arnynt:

*"Fe wnaethom gyd-ddylunio a chyflwyno dau grŵp ffocws gyda Mencap Lerpwl a Sefton gan gyrraedd 17 o bobl ag anableddau dysgu, ar-lein ac wyneb yn wyneb. Roedd hyn yn ein helpu i ddeall mwy am y profiadau mae pobl ag anableddau dysgu wedi dod ar eu traws ar-lein, eu lefelau hyder, eu pryderon a'r pynciau yr hoffent ddysgu mwy amdanynt i lywio ein gwaith o greu cynnwys."*

***Prosiect ymwybyddiaeth o'r cyfryngau 'Pause, Think, Click': adroddiad gwerthuso, Chwefror 2024***

## Lleoliadau cyflenwi

Roedd y gweithgareddau'n gweithio'n dda pan oeddent yn cael eu darparu trwy leoliadau cyfarwydd y mae'r cyfranogwyr yn gyfarwydd â nhw ac wedi'u hamgylchynu gan deulu a/neu ffrindiau (er enghraifft, swyddfeydd elusen gyda defnyddwyr gwasanaeth eraill neu wasanaethau byw â chymorth).

Roedd y ddarpariaeth yn y lleoliadau hyn hefyd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn hygyrch ac yn gyfforddus i gyfranogwyr. Fodd bynnag, roedd diffyg offer TG mewn rhai lleoliadau cymunedol yn golygu bod llai o gyfleoedd na'r disgwyl i gael profiad ymarferol o ddefnyddio gweithgareddau ar-lein, gan ddangos yr angen am gynllunio ar y cyd â lleoliadau cymunedol, a chynllun wrth gefn gyda chynnwys analog neu gynnwys sydd eisoes wedi'i lawrlwytho.

**Sbotolau: cefnogi cyfranogwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol gyda mynediad at offer TG**

Nod **Mencap NI** oedd meithrin gallu pobl ifanc ag anableddau dysgu a'u rhieni i gymryd rhan mewn gweithgarwch ar-lein a chadw'n ddiogel ar-lein. Cyflwynodd y prosiect gyfres o weithdai wyneb yn wyneb, pedair i chwe wythnos o hyd, yn Belfast ac ardaloedd Fermanagh / Omagh. Dyluniwyd y sesiynau i fod yn rhyngweithiol iawn. Fodd bynnag, roedd diffyg offer TG (e.e. ffonau clyfar, gliniaduron a chonsolau gemau) yn cyfyngu ar y cyfle i wneud gweithgareddau ymarferol:

*“Yn y dyfodol, byddai cael mynediad at ‘becynnau TG’ sy’n cynnwys amrywiaeth o galedwedd yn galluogi’r staff i drefnu sesiynau mwy rhyngweithiol lle gallai pobl ifanc a theuluoedd roi cynnig ar sgiliau newydd, chwilio am wybodaeth, archwilio gwahanol safleoedd sydd o ddiddordeb iddynt a chanfod sut i sefydlu mesurau diogelwch effeithiol.”*

***Prosiect Be Safe Online: adroddiad gwerthuso, Mawrth 2024***

## Sesiynau, gweithgareddau a deunyddiau

Roedd y sesiynau rhyngweithiol a oedd yn ffocysu ar weithgareddau hwyliog ac anffurfiol, ac a oedd yn amlwg yn wahanol i weithgareddau yn yr ysgol a gweithgareddau ffurfiol eraill, yn gweithio’n dda. Teimlwyd hefyd bod sesiynau’n arbennig o effeithiol pan fyddant yn cael eu harwain gan rywun sydd â phrofiad uniongyrchol o gyflwr penodol, neu brofiad o gefnogi rhywun o’r grŵp targed.

Roedd gwahanol strwythurau sesiwn yn addas ar gyfer gwahanol fathau o weithgareddau. Pan oedd y sesiynau’n ffocysu ar godi ymwybyddiaeth, roedd y sesiynau grŵp yn hwyluso sgyrsiau a thrafodaethau rhwng y cyfranogwyr. Roedd cymorth un-i-un, yn aml gyda chymorth gwirfoddolwyr, yn fwy addas ar gyfer cefnogi pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu i ddatblygu eu sgiliau digidol ac i ddysgu sut i wneud gwahanol dasgau ar-lein.

Fodd bynnag, nododd rhai nad oedd sesiynau un-i-un yn briodol i bob cynulleidfa, gan fod risg y gallent annog perthynas ddibynnol y tu allan i nodau’r prosiect.

Roedd y sesiynau’n gweithio orau pan oeddent yn gymharol fyr ac yn cynnwys egwyliau, er ei bod yr un mor bwysig sicrhau bod y sesiynau’n cyd-fynd ag anghenion y cyfranogwyr. Roedd cynnal sesiynau peilot yn helpu rhai prosiectau i gyfrifo faint o sylw y gallent ei roi i bynciau’n gyfforddus o fewn sesiynau.

**Sbotolau: cyflogi pobl sydd â phrofiad uniongyrchol i sicrhau bod cynnwys ymwybyddiaeth o’r cyfryngau yn teimlo’n berthnasol**

Nod **The Brain Charity** oedd cefnogi pobl ifanc niwrowahanol yn eu harddegau ac oedolion sy’n ofalwyr neu sy’n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i ddeall peryglon posibl ar-lein yn well a sut mae cadw eu hunain yn ddiogel. Canfuwyd yn gynnar nad oedd rhai pobl ifanc yn ystyried bod y sesiynau’n berthnasol iddynt a bod angen iddynt gael eu hargyhoeddi o’u gwerth. Roeddent wedi nodi bod cyflogi hyfforddwr ymwybyddiaeth o’r cyfryngau awtistig i hysbysebu, dylunio ac arwain y gweithdai yn hanfodol i ymgysylltu a llwyddiant y prosiect:

*“Mewn grwpiau ffocws, nododd cyfranogwyr eu bod yn meddwl eu bod wedi ymgysylltu llawer mwy â’r deunydd a gyflwynwyd oherwydd bod y prif hwylusydd yn gallu mynd i’r afael â’r pynciau o safbwynt profiad personol.”*

***Gwerthuso Safety Net: cefnogi pobl â chyflyrau niwrolegol i fod yn ymwybodol ar-lein, Ebrill 2024***

# Awgrymiadau Ofcom i gefnogi pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu

- Cymerwch amser i ddeall llythrennedd digidol a llythrennedd unigol yn y cyfryngau ac anghenion unigol cyfranogwyr er mwyn sicrhau cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Cynhwyswch bobl sydd â phrofiad bywyd yn nhîm y prosiect i helpu i ddylunio a darparu gweithgareddau cynhwysol a hygyrch sy'n teimlo'n berthnasol i gyfranogwyr.
- Defnyddiwch Saesneg clir a fformatau hygyrch fel Easy Read i hysbysebu cyfleoedd ac osgowch gyfeiriadau at gysyniadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau technegol.
- Darparwch gymorth un-i-un i fynd i'r afael â rhwystrau, fel ofn, chwithdod ynghylch cyrchu cymorth, neu hunanymwybyddiaeth ynghylch a allent elwa o gymorth ai peidio.
- Darparwch gymorth mewn lleoliadau y mae'r cyfranogwyr yn gyfarwydd â nhw, ble maen nhw eisoes wedi meithrin perthynas ddibynadwy â staff a'u cyfoedion.
- Cadwch sesiynau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau o dan awr ac osgowch geisio cynnwys gormod o gynnwys mewn un sesiwn.
- Cwmpaswch a darparwch gefnogaeth ymarferol fel rhan o'r ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar rieni a chefnogwyr pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu. Er enghraifft, cymorth gofal plant (e.e. cynnal sesiynau ar gyfer eu plentyn ar yr un pryd).



# Mewnwelediadau gwerthuso ymwybyddiaeth o’r cyfryngau

Mae’r adroddiad hwn wedi nodi’r llwyddiannau a’r heriau y mae sefydliadau’n eu hwynebu wrth ddylunio a darparu eu prosiectau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau. Mae’r adran hon yn ffocysu ar sut yr aethant ati i werthuso, ac yn tynnu sylw at rai pwyntiau dysgu allweddol.

Cynhaliodd pob un o’r sefydliadau a gomisiynwyd werthusiad proses – i ddeall pa mor effeithiol oedd eu dull gweithredu, ac a oedd angen iddynt addasu i’r hyn a ddysgwyd wrth gyflawni neu ar gyfer prosiectau yn y dyfodol – a gwerthusiad effaith – i ddeall a oedd gan eu cyfranogwyr well sgiliau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau o ganlyniad i’r prosiect. Mae’r gwaith hwn yn tynnu sylw at bedair thema allweddol.

## Dyluniad gwerthuso cymesur

Roedd y rhan fwyaf o brosiectau’n defnyddio arolygon cyn ac ar ôl i fesur effaith eu hymyriad, ac nid oeddent yn cymharu’r canlyniadau â grŵp rheoli. Roedd y dull hwn yn gymesur â’r prosiectau a gomisiynwyd ganddynt, ac mae’n nodweddiadol o sefydliadau yn y sectorau elusennol ac addysg. Lle nad oes llawer o gyfleoedd i gynnwys gwerthuso, mae’n hanfodol dylunio adnoddau gwerthuso’n ofalus i sicrhau eu bod yn darparu’r wybodaeth neu’r adborth pwysicaf am y prosiect. Mae hefyd yn golygu, er mwyn deall yn iawn beth sy’n gweithio o ran darparu gweithgareddau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau, y bydd angen ymdrech ar y cyd i rannu cynifer o enghreifftiau â phosibl er mwyn ymhelaethu ar themâu a materion allweddol.

**Sbotolau: gofyn cwestiynau arolwg penagored i archwilio 'sut' a 'pam'**

Nod **Age UK East London** oedd cefnogi oedolion hŷn i amddiffyn eu hunain rhag sgamiau ar-lein a dod o hyd i fargeinion bwyd ac ynni ar-lein drwy gyfres o weithdai byr, modiwlaidd. Fe wnaethant ddewis deall eu heffaith drwy arolygon byr, pum cwestiwn, a gyhoeddwyd ar ddiwedd gweithdai – roedd hyn yn teimlo’n gymesur â hyd y gweithgareddau a ddarparwyd ac yn lleihau’r risg o syrffed arolwg ymysg cyfranogwyr a oedd hefyd yn defnyddio gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, er bod yr arolwg wedi eu helpu i fesur newidiadau mewn hyder a’u croesgyfeirio â gwybodaeth go iawn, roedd yn rhoi cipolwg cyfyngedig ar y newidiadau hyn:

*“Wrth edrych yn ôl, mae’n bosibl y byddai arolygon y prosiect wedi bod yn hirach. Byddai gwybodaeth o arolwg hirach, gydag opsiynau ateb penagored, hefyd yn darparu data ac adborth manylach a llawn gwybodaeth. Yn ogystal, gallem fod wedi cyflwyno arolwg ar-lein a allai fod wedi cael ei ddefnyddio fel rhan o’u dysgu digidol.”*

***Age UK East London & Ofcom: gwerthusiad o’r prosiect ymwybyddiaeth o’r cyfryngau, Ebrill 2024***

## Dylunio canlyniadau a dangosyddion

Roedd y rhan fwyaf o brosiectau yn ei chael yn anodd mynegi canlyniadau mesuradwy a chreu dangosyddion canlyniadau o ansawdd uchel yn absenoldeb canllawiau ac adnoddau sy'n benodol i ymwybyddiaetho'r cyfryngau. Lle'r oedd prosiectau'n ffocysu mwy ar gynhwysiant a mynediad digidol, roedd Pecyn Cymorth Gwerthuso Cynhwysiant Digidol DSIT a DCMS yn adnodd defnyddiol ar gyfer datblygu dangosyddion a mesurau. Fodd bynnag, nid oedd elfen gyfatebol amlwg ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau pan gomisiynwyd y sefydliadau. Fel rhan o'n rhaglen ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ehangach, fe wnaethom ddatblygu a chyhoeddi pecyn gwerthuso ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ym mis Chwefror 2023 a darparu gweminarau i gefnogi sefydliadau i'w defnyddio. Bydd y pecyn cymorth yn cael ei ddiweddaru'n barhaus i gefnogi sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, gyda'r bwriad o liniaru'r her hon.

## Asesiad goddrychol a gwrthrychol

Roedd bron pob prosiect yn ddibynnol ar ffynonellau tystiolaeth hunanasesu, a nododd y sefydliadau y risg o ragfarn hunan-adrodd yn eu hadroddiadau. Er bod rhai prosiectau'n ymgorffori dulliau fel cwisiau i fesur gwybodaeth yn wrthrychol, nid oedd llawer yn gwneud hynny oherwydd yr amser a'r adnoddau oedd eu hangen i'w dylunio, eu profi a'u mireinio. I'r rhai a wnaeth hynny, er ei bod yn heriol sicrhau bod cwestiynau'r cwis yn cael eu cyflwyno ar y lefel gywir, roedd manteision sylweddol o wneud hynny. Yn yr enghraifft isod, roedd sylweddoli bod y cwis yn rhy hawdd wedi golygu bod y tîm yn gallu addasu'r gweithgareddau prosiect a gynlluniwyd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl ifanc. Mae hefyd yn bwysig nodi, er nad yw mesurau adrodd goddrychol yn berthnasol i bob metrig, maent yn dal yn ddefnyddiol ar gyfer mesur hyder mewn sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

**Sbotolau: sicrhau bod cwestiynau cwis yn cael eu cyflwyno ar y lefel gywir i asesu gallu'n gywir**

Nod **Salford Foundation** oedd arfogi pobl ifanc rhwng 10 ac 14 oed â'r sgiliau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i we-lywio drwy'r byd ar-lein yn ddiogel. Mabwysiadodd y prosiect ddull gwerthuso dulliau cymysg i ddeall eu heffaith, gan gynnwys cyn ac ar ôl arolygon a chwisiau. Gall sicrhau bod casglu data wir yn adlewyrchu newidiadau yn ymddygiad neu wybodaeth cyfranogwyr fod yn heriol, a sylwodd y prosiect yn gynnar nad oedd y data meintiol yn cyd-fynd â'r hyn a arsylwyd am gyfranogwyr na'r adborth a gafwyd gan athrawon a gweithwyr cymunedol:

"Yn ystod tymor cyntaf y prosiect, fe wnaethom ailwerthuso'r dulliau casglu data, fel yr holiadur cyn-cwis ac ar ôl yr arolwg. Gwelsom fod holiadur y cwis yn rhy hawdd, ac roedd angen mwy o eglurder ar rai o gwestiynau'r arolwg, felly cafodd y rhain eu haddasu ar gyfer gweddill y prosiect."

***Prosiect Positive Action: Adroddiad Gwerthuso, Ebrill 2024***

## Amserlenni

O fewn yr amserlen gyflawni, ychydig o brosiectau oedd â'r capasiti neu'r cyfle i fynd yn ôl at gyfranogwyr rai misoedd ar ôl cyflawni i fesur effeithiau tymor canolig i dymor hwy ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, neu gynaliadwyedd effeithiau tymor byr. Pan oedd prosiectau'n gallu mynd yn ôl at gyfranogwyr blaenorol o ddechrau eu hamserlen cyflawni, roeddent hefyd yn cael trafferth cysylltu â nhw eto ar ôl i weithgareddau'r prosiect ddod i ben. Er mwyn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio ym maes ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, byddai'n werthfawr profi rhagdybiaethau cychwynnol sefydliadau ynghylch a yw eu gweithgareddau'n cyfrannu at effeithiau tymor hwy ai peidio, a hefyd iddynt nodi ymarferoldeb ailgysylltu â chyfranogwyr a dod o hyd i fesurau lliniaru ar gyfer y math hwn o gyswllt.

**Sbotolau: casglu data allweddol wrth gyflawni'r prosiect**

Nod **West Nottinghamshire College** oedd gwella gwybodaeth, sgiliau a hyder ymwybyddiaeth o'r cyfryngau oedolion hŷn a phobl o gefndiroedd difreintiedig, a'u cefnogi i ddefnyddio rhaglenni ar-lein i gyrchu gwasanaethau lleol. Roedd eu methodoleg werthuso yn cynnwys galwadau ffôn dilynol gyda chyfranogwyr 2-3 mis ar ôl yr ymyriad, ond roeddent yn ei chael yn anodd ailgysylltu â chyfranogwyr heb ddarparu cymhelliant ar ôl i'r hyfforddiant ddod i ben:

*"Pan nad oedd y cyfranogwr yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant mwyach, nid oedd cymhelliant iddo gwblhau arolygon nac ateb galwadau am adborth, a chollwyd rhai allbynnau oherwydd hyn. Yn y dyfodol, dylem sicrhau bod yr holl ddata'n cael ei gasglu tra bydd y dysgwr ar y rhaglen."*

***Demystifying Digital: adroddiad gwerthuso prosiect, Ebrill 2024***

# Awgrymiadau Ofcom i werthuso ymwybyddiaeth o’r cyfryngau

- Defnyddiwch adnoddau presennol i’ch helpu i ddewis canlyniadau, dangosyddion a mesurau ar gyfer eich prosiect a’i werthuso. Mae enghreifftiau defnyddiol yn cynnwys Banc Canlyniadau Ymwybyddiaeth o’r Cyfryngau Ofcom.
- Rhowch flaenoriaeth i’r canlyniadau pwysicaf ar gyfer mesur er mwyn sicrhau bod eich gwerthusiad yn aros yn gymesur â maint eich prosiect. Gallai hyn gynnwys canlyniadau sy’n bwysig i’ch sefydliad neu i gyllidwr, rydych chi’n llai hyderus ynddynt, neu’n ganlyniadau sy’n hanfodol er mwyn ‘datgloi’ canlyniadau tymor hwy.
- Defnyddiwch gyfuniad o fesurau goddrychol a gwrthrychol i ddeall a yw gwybodaeth a galluoedd pobl wedi gwella, yn ogystal â’u canfyddiad eu hunain ohonynt. Er enghraifft, gallwch brofi lefelau gwybodaeth pobl drwy gwisiau, neu a all pobl gymhwyso sgiliau newydd mewn ymarfer drwy arsylwi.
- Profwch eich offer casglu data gyda’r cyfranogwyr i sicrhau bod y cwestiynau’n hawdd eu deall, wedi’u geirio’n briodol, ar y lefel gywir, a faint o amser maen nhw’n ei gymryd i’w cwblhau.
- Gofynnwch i’r cyfranogwyr ar ddiwedd eich prosiect a allwch chi gysylltu â nhw yn y dyfodol i ddeall beth sydd wedi newid iddyn nhw yn y tymor hwy o ganlyniad i’ch gweithgareddau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau. Gall cymhellion, fel cael eu cynnwys mewn raffl i ennill talebau, fod yn ddefnyddiol i roi hwb i’r cyfraddau ymateb.



# Casgliadau ac argymhellion

Mae'r prosiectau hyn wedi creu mewnwelediadau a gwersi a fydd yn ddefnyddiol i sefydliadau cyflawni sy'n cefnogi grwpiau targed, ac ymarferwyr ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sy'n ceisio deall pa ddulliau sy'n gweithio mewn gwahanol gyd-destunau a lleoliadau.

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd tystiolaeth a dysgu ar draws y prosiectau, gan nodi themâu trawsbynciol, beth weithiodd yn dda, a heriau mewn ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Mae'r gwahaniaethau o ran man cychwyn, dull a'r hyn a ddysgwyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cwrdd â phobl lle maen nhw wrth ddarparu gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Roedd mewnwelediadau trawsbynciol allweddol yn ffocysu ar bwysigrwydd profi rhagdybiaethau cynnar am anghenion a diddordebau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau grŵp targed; dulliau ymgysylltu effeithiol; manteision cyd-ddylunio a pheilota ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau; manteision modelau cymorth gwahanol a dylunio gweithgareddau wedi'u teilwra sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; a phwysigrwydd darparu, neu gysylltu â, chymorth dilynol.

Mae'n amlwg bod gwerthuso gweithgareddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn hanfodol er mwyn cyfrannu at ein dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n gweithio.

## Argymhellion i sefydliadau sy'n darparu ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

### 1: Blaenoriaethwch gynlluniau allgymorth ac ymgysylltu

Dylai sefydliadau cyflawni ddisgwyl rhywfaint o wrthwynebiad i ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a rhagweld ei effaith ar recriwtio ac ymgysylltu – hyd yn oed pan fydd gwasanaethau'n cael eu cynnig am ddim. Am y rheswm hwn, mae cynlluniau allgymorth ac ymgysylltu yr un mor bwysig i gyflawni'n llwyddiannus â chynllunio gweithgareddau ymyriad – o nodi 'bachyn' sydd â chysylltiad agos ag anghenion neu ddiddordebau grŵp targed (mae'r term "ymwybyddiaeth o'r cyfryngau" yn annhebygol iawn o fod yn llwyddiannus at y diben hwn), i weithio gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol a thrwy bartneriaid cymunedol dibynadwy.

### 2: Ystyriwch ac ymgorfforwch gymorth llythrennedd digidol priodol os oes angen

Mae llawer o grwpiau hefyd yn wynebu rhwystrau sylweddol o ran cynhwysiant a mynediad digidol. Dylai sefydliadau sy'n ffocysu ar feysydd eraill o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau (er enghraifft, meddwl yn feirniadol am gynnwys) ragweld hyn a sicrhau bod cymorth priodol ar gael i 'gyfarfod â phobl mewn lleoliadau cyfleus' yn gyntaf – o gynnig sesiynau cymorth un-i-un, i ddarparu dyfeisiau ac adnoddau. Mae hyn yn golygu nad yw darparu cymorth ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein yn debygol o fod yn llwyddiannus yn y lle cyntaf.

### 3: Treialwch weithgareddau a gynlluniwyd gyda chynrychiolwyr grwpiau targed

Gall lefelau hyder a gwybodaeth am ymwybyddiaeth o'r cyfryngau amrywio'n sylweddol rhwng aelodau o'r un grŵp targed, ar sail profiadau blaenorol neu'r cymorth a gafwyd. Dylai prosiectau bob amser geisio treialu gweithgareddau wedi'u cynllunio gyda chynrychiolwyr eu grŵp targed i sicrhau bod cynnwys ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn berthnasol ac yn cael ei gyflwyno ar y lefel iawn, neu

bydd rhaid iddynt wneud newidiadau yng ngoleuni profiad yn ddiweddarach pan nad yw'r ymgysylltu neu'r canlyniadau'n cwrdd â'r disgwyliadau. Nid oes un dull sy'n addas i bawb mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

# Argymhellion i sefydliadau sy'n comisiynu neu'n ariannu ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

## 4: Strwythurwch ffurflenni cais i gefnogi dadansoddiad cadarn o'r sefyllfa

Mae heriau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac achosion sylfaenol yn gymhleth ac yn gydgysylltiedig. Dylai comisiynwyr ystyried strwythuro ffurflenni cais i annog ymgeiswyr i sicrhau dealltwriaeth dda o'r broblem a wynebir gan grwpiau targed er mwyn helpu i nodi'r camau gweithredu gorau. Er enghraifft, dadansoddiad o sefyllfa dan arweiniad sy'n gofyn am fanylion cryno am heriau, achosion sylfaenol a chanlyniadau, rhwystrau i newid, darpariaeth bresennol a bylchau.

Er bod angen i ffurflenni cais fod yn gymesur â rhaglenni a maint / gallu sefydliadau sy'n gwneud cais, bydd prosiectau'n elwa o fod wedi gwneud y meddwl hollbwysig hwn ymlaen llaw, a bydd comisiynwyr mewn sefyllfa well i farnu rhinweddau cynigion. Mae canfod y cydbwysedd hwn yn allweddol.

## 5: Byddwch yn realistig ynghylch canlyniadau posibl, a chefnogwch sefydliadau i gynllunio gyda hyn mewn golwg

Mae angen i gomisiynwyr fod yn realistig ynghylch pa ganlyniadau y mae'n bosibl eu disgwyl o ymyriadau â chyfyngiadau amser, o ran ymyriadau gydag amser cyswllt cyfranogwyr cyfyngedig a pha ganlyniadau y gellir eu mesur mewn prosiectau sy'n para llai na blwyddyn. Efallai y bydd comisiynwyr am nodi lle mae prosiectau'n rhy uchelgeisiol, a gweithio gyda nhw i ddatblygu canlyniadau mwy realistig.

## 6: Dylunio amserlenni comisiynu gyda digon o amser cyn ac ar ôl cyflawni

Er mwyn darparu ymyriad effeithiol, mae angen digon o amser ar sefydliadau cyflawni ar ôl dyfarnu cyllid i wirio dyluniad eu prosiect mewn cyd-destunau lleol, meithrin perthnasoedd a chytundebau ag unrhyw bartneriaid cyflenwi, a datblygu fframweithiau gwerthuso ac offer casglu data cysylltiedig, ymhell cyn y cyflawni disgwyliedig. Ar ôl cyflawni, er mwyn sicrhau bod yr ymyriad wedi cael yr effaith a fwriadwyd, bydd gwerthusiad dilynol wythnosau neu fisoedd ar ôl diwedd yr ymyriad yn fwy craff nag ar ôl yr arolwg. Er bod hyn yn swnio'n amlwg, anaml y caiff digon o amser cynllunio a gwerthuso ei gynnwys mewn llinellau amser cyflawni.

# A1 Cymorth gwerthuso

Gofynnodd Ofcom i brosiectau a gomisiynwyd werthuso eu hymyriadau yn erbyn dau nod: deall pa effaith a gafwyd ar grwpiau targed (neu beidio); ac i gofnodi'r hyn a ddysgwyd am ffyrdd effeithiol o ddarparu ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

Yn bwysig, roedd prosiectau'n cael eu hannog i fyfyrio'n agored ar unrhyw heriau roeddent yn eu hwynebu wrth ddylunio, darparu a gwerthuso eu prosiectau, ac i dynnu sylw at wersi a allai helpu sefydliadau eraill sy'n bwriadu darparu ymyriadau ar gyfer grwpiau targed.

Darparodd Ofcom amrywiaeth o gymorth gwerthuso i sefydliadau a gomisiynir, gan gynnwys:

- cyngor ac arweiniad un-i-un gan ddau gynghorydd gwerthuso (awduron yr adroddiad hwn)
- presenoldeb mewn dau Ddiwrnod Dysgu a Rhannu (ym mis Mawrth a mis Medi 2023), oedd yn cynnwys cefnogaeth gan gymheiriaid, rhwydweithio a gweithdai ymarferol dan arweiniad y cynghorwyr gwerthuso
- cyfres o Gwestiynau Gwerthuso Cyffredin a ddrafftiwyd gan y cynghorwyr gwerthuso mewn ymateb i adborth yn y Diwrnod Dysgu a Rhannu cyntaf (gweler Atodiad 1)
- Pecyn Cymorth Gwerthuso Ofcom (a gyhoeddwyd ar wahân), y cafodd prosiectau eu hannog i'w ddefnyddio
- cyfres o dair gweminar oedd yn cyd-fynd â Phecyn Cymorth Gwerthuso Ofcom, dan arweiniad y cynghorwyr gwerthuso (a oedd hefyd ar gael i sefydliadau eraill a wahoddwyd, i hyrwyddo mabwysiadu'r Pecyn Cymorth yn ehangach)

Roedd y prosiectau hefyd yn gyfle i ddefnyddwyr brofi Pecyn Gwerthuso Ofcom yn gynnar, a gafodd ei ddiwygio a'i ddiweddaru yng ngoleuni adborth ym mis Tachwedd 2023.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys myfyrdodau ar effeithiolrwydd y canllawiau gwerthuso a'r cymorth a ddarperir i sefydliadau a gomisiynir gan y byddai hyn yn cynrychioli gwrthdaro rhwng buddiannau.

# A2 Trosolwg o effaith y Cwestiynau Gwerthuso Allweddol

## Plant a phobl ifanc

### Guardian Foundation

- A oes gan addysgwyr cymunedol y sgiliau a'r hyder i gyflwyno sesiynau pellach yn eu cymunedau?

### Salford Foundation

- A oedd y cyfranogwyr yn gallu adnabod cynnwys ar-lein dibynadwy yn well erbyn diwedd y prosiect?
- A oedd gan gyfranogwyr well dealltwriaeth sydd wedi gwella eu hymddygiad ar-lein?

### Praesidio Safeguarding

- A oedd y cyfranogwyr yn gallu nodi technolegau nodweddion perswadio yn well a sut roedd hyn yn dylanwadu ar eu profiadau ar-lein?
- Os ydyn nhw'n gallu deall a nodi strategaethau nodweddion perswadio yn well a sut mae eu cynnwys a'u rhyngweithiadau'n cael eu ffurfio drwy'r rhain, a yw hyn mewn gwirionedd yn newid eu harferion ar-lein – neu'n eu gwneud yn fwy tebygol o wrthsefyll y technolegau hyn?

### ProMo Cymru

- Oedd pobl ifanc yn gallu deall a siapio eu gofod ar-lein yn well? / cymryd rheolaeth dros eu gofod ar-lein?
- I ba raddau mae'r ymyriadau wedi gwella dealltwriaeth feirniadol pobl ifanc o algorithmau?
- Sut mae pobl ifanc wedi defnyddio'r sgiliau maen nhw wedi'u dysgu drwy'r prosiect yn eu bywydau bob dydd?
- Sut mae'r prosiect wedi gwella'r ffordd mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn deall algorithmau?
- Sut mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn gallu cefnogi sgiliau meddwl yn feirniadol pobl ifanc yn well drwy ddefnyddio adnoddau / ymyriadau priodol?

## Oedolion hŷn

### Red Chair Highland

- A yw'r oedolion hŷn sydd wedi cael dyfais a chymorth sefydlu yn defnyddio'r ddyfais yn hyderus?

### AgeUK East London

- Sut wnaeth cleientiaid newid eu harferion wrth siopa ar-lein?

## Advice NI

- I ba raddau mae cyfranogwyr yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio offer ar-lein?
- I ba raddau mae cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn fwy cymwys i ddiogelu eu diogelwch ar-lein?
- I ba raddau mae cyfranogwyr yn fwy tebygol o allu adnabod cynnwys dibynadwy ar-lein?

## Norfolk Libraries

- A lwyddon ni i gyflawni amcanion y prosiect – gyda nifer uchel (50%+) o gyfranogwyr yn dweud eu bod yn fwy hyderus yn y meysydd lle'r oeddem yn cynnig cymorth?
- Un o sgil-ganlyniadau'r prosiect oedd annog pobl i ddefnyddio adnoddau ar-lein i gadw mewn cysylltiad er mwyn lleddfu ynysigrwydd cymdeithasol. I ba raddau y cyflawnwyd y nod hwn?

## West Notts College

- A yw'r cyfranogwyr yn teimlo'n fwy hyderus a galluog?

# Pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu

## AbilityNet

- A oedd preswylwyr yn gallu defnyddio eu technoleg yn well ac ymgymryd â thasgau ar-lein?
- A oedd preswylwyr yn fwy gwybodus a hyderus i adnabod sgamiau a chamwybodaeth ar-lein?
- A oedd y staff yn fwy gwybodus a hyderus ynghylch sgiliau digidol, hygyrchedd a sgamiau?
- A oedd gwirfoddolwyr yn weithredol, yn ymgysylltiedig ac yn hyderus wrth gefnogi preswylwyr?

## The Brain Charity

- A oedd y cyfranogwyr yn fwy hyderus wrth gyrchu cynnwys ar-lein erbyn diwedd y prosiect?
- A oedd y cyfranogwyr yn teimlo'n fwy diogel ar-lein ar ddiwedd y prosiect?

## Mencap Liverpool & Sefton

- A yw'r prosiect wedi cynyddu gallu unigolion i adnabod cynnwys camarweiniol neu niweidiol ar-lein (e.e. sgamiau / twyll / camwybodaeth / twyllwybodaeth)?
- Ydy unigolion yn teimlo'n fwy hyderus yn gwneud penderfyniadau / yn bod yn fwy diogel ar-lein?

## Mencap NI

- A oedd y bobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiect yn gallu defnyddio mannau ar-lein yn ddiogel?
- Pa mor effeithiol fu'r prosiect o ran annog rhieni i gefnogi eu pobl ifanc i fod yn weithredol mewn mannau ar-lein?

# A3 Trosolwg o broses y Cwestiynau Gwerthuso Allweddol

**Tabl C1: Meysydd a gafodd sylw yn y trosolwg o broses y Cwestiynau Gwerthuso Allweddol**

| | Grŵp targed | Anghenion grŵp targed | Cyrhaeddiad | Ymgysylltu | Model / dull cyflwyno | Effeithiolrwydd | Addasadwyedd | Cynaliadwyedd | Partneriaethau a chydweithio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Guardian Foundation** | Plant a phobl ifanc | | | | Ie | | | | |
| **Salford Foundation** | Plant a phobl ifanc | | | Ie | | Ie | | | |
| **Mencap NI** | Pobl ifanc ag anableddau dysgu | | | | Ie | | Ie | | |
| **Praesidio** | Plant a phobl ifanc | | | Ie | | Ie | | | |
| **ProMo Cymru** | Plant a phobl ifanc | | | | Ie | | | | |
| **West Notts College** | Oedolion hŷn | Ie | | | Ie | Ie | | Ie | |
| **Red Chair Highland** | Oedolion hŷn | | | Ie | Ie | Ie | | | |
| **AgeUK East London** | Oedolion hŷn | | | Ie | Ie | Ie | | | |
| **Advice NI** | Oedolion hŷn | | | Ie | | Ie | | | |
| **Norfolk Libraries** | Oedolion hŷn | | Ie | Ie | Ie | | | | |
| **AbilityNet** | Pobl anabl a phobl â nam gwybyddol, staff a gwirfoddolwyr | | | Ie | | | | Ie | Ie |
| **The Brain Charity** | Pobl â chyflyrau niwrolegol | | | Ie | | Ie | | | |
| **Mencap Liverpool & Sefton** | Pobl ifanc ag anableddau dysgu | Ie | | | Ie | Ie | | | |

# Plant a phobl ifanc

## Guardian Foundation

- Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng cyflwyno NewsWise mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol?

## Salford Foundation

- Beth wnaethom ni ei ddysgu am ffyrdd effeithiol o helpu pobl ifanc i adnabod gwybodaeth gamarweiniol ar-lein?
- Beth wnaethom ni ei ddysgu ar gyfer y dyfodol am ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â'r materion hyn a'u haddysgu mewn ffordd ddeniadol, ac sy'n cysylltu â'u profiadau?

## Praesidio Safeguarding

- Pa mor dda oedd y pecyn cymorth, y ffyrdd yr oedd y sesiynau yn cael eu cynnal, a'r ymarferion a'r tasgau yn ennyn diddordeb, ymgysylltiad a chymhelliant y plant?
- Beth wnaethom ni ei ddysgu ar gyfer y dyfodol am ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â'r materion hyn a'u haddysgu mewn ffordd ddeniadol, ac sy'n cysylltu â'u profiadau?
- Pa wersi eraill y gallwn eu datblygu i wella ein gwaith gyda phobl ifanc yn y dyfodol?

## ProMo Cymru

- Beth oedd cryfderau a gwendidau dyluniad a gweithrediad yr ymyriadau, a beth ellid ei wneud i wella prosiectau yn y dyfodol?
- Beth wnaethom ni ei ddysgu oedd y dulliau mwyaf effeithiol o ennyn diddordeb pobl ifanc drwy gydol y prosiect?
- Pa wersi eraill y gallwn eu datblygu i wella ein gwaith gyda phobl ifanc yn y dyfodol?
- Sut mae'r dull cyd-ddylunio wedi effeithio ar ganlyniadau'r prosiect?

# Oedolion hŷn

## Red Chair Highland

- A yw cymorth wyneb yn wyneb yn effeithiol o ran helpu oedolion hŷn i fagu hyder digidol a sgiliau digidol?
- A yw sesiynau galw heibio yn y gymuned yn effeithiol o ran cynnwys oedolion hŷn mewn gweithgareddau digidol?
- Pa mor llwyddiannus oedd gweithdai grŵp o ran cefnogi oedolion hŷn i fod yn ddefnyddwyr mwy diogel ar-lein?

## AgeUK East London

- Pa mor llwyddiannus oedd y prosiect o ran ymgysylltu â chleientiaid sydd wedi profi sgamiau?
- Pa ddull hyfforddi sy'n cael mwy o effaith ar ein cleientiaid?
- Beth yw'r heriau mwyaf?
- Pa wersi eraill y gallwn ni eu dysgu o'r prosiect hwn i wella ein gwaith presennol?

## Advice NI

- Pa mor llwyddiannus fu'r prosiect o ran ymgysylltu â phobl hŷn sy'n wynebu anfantais?
- Pa mor llwyddiannus fu'r prosiect o ran gwella lles ariannol cyfranogwyr?

## Norfolk Libraries

- A yw cymorth digidol yn gweithio'n well mewn rhai mannau yn hytrach nag eraill – a wnaethom ni ymgysylltu yn ôl y disgwyl yn y lleoliadau roeddem wedi'u dewis?
- A lwyddodd y prosiect i ddenu dynion hŷn?
- Pa elfen o'r prosiect y cawsom y galw mwyaf amdani – ar-lein, diogelwch neu mewn rheolaeth?

## West Nottinghamshire College

- Pa rannau o'r prosiect y gallem eu datblygu ymhellach (e.e. cyrsiau)?
- A oedd y dull cyflwyno'n effeithiol? Beth allem ni ei wella?
- Beth wnaethon ni ei ddysgu am anghenion y demograffig hwn?

# Pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu

## AbilityNet

- Pa mor llwyddiannus oeddem o ran ymgysylltu â phobl hŷn a phobl anabl ym mhob un o'r 5 pentref? (Beth wnaethon ni ei ddysgu a'i newid o'r cynllun peilot?)
- Pa mor llwyddiannus oedd y berthynas waith gydag Extracare?
- Pa wersi a ddysgwyd gennym ar gyfer prosiectau cynhwysiant digidol yn y dyfodol a gwaith partneriaeth?

## The Brain Charity

- Pa mor llwyddiannus oedd y prosiect o ran ymgysylltu â gofalwyr ledled Lerpwl?
- Beth wnaethom ni ei ddysgu oedd y dulliau mwyaf effeithiol o helpu pobl â chyflyrau niwrolegol i adnabod cynnwys niweidiol ar-lein?
- Beth wnaethom ni ei ddysgu oedd y dulliau mwyaf effeithiol o ennyn diddordeb pobl ifanc drwy gydol y prosiect?

## Mencap Liverpool & Sefton

- Pa mor llwyddiannus oedd y ffordd o weithio dan arweiniad defnyddwyr a beth wnaethom ni ei ddysgu? (cyd-gynhyrchu, cyd-ddylunio a chyflogi Hyrwyddwyr Digidol, dull grŵp cytbwys)
- Sut mae'r dull cydgynhyrchu wedi effeithio ar ganlyniadau?
- Beth ddysgom ni oedd y dulliau mwyaf effeithiol o gyflawni hyn?
- Sut gwnaethom ni rannu a chynnal yr hyn a ddysgwyd?
- Pa effaith mae cyflogi Hyrwyddwr Digidol gydag anabledd dysgu wedi ei gael?
- Sut ydym ni wedi cydbwyso syniadau / dymuniadau / anghenion pawb os ydynt yn gwrthdaro â rhai aelodau'r grŵp (fel bod pawb yn cael ei werthfawrogi'n gyfartal)?

## Mencap NI

- Beth wnaethom ni ei ddysgu am ddefnyddio dulliau gwaith ieuenctid i ddarparu dysgu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i bobl ifanc ag anableddau dysgu?
- Pa mor hyblyg fu ein hadnodd / pecyn cymorth ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc ag anableddau dysgu?

# A4 Ffynonellau tystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys:

- adolygiad o ddogfennau cynllunio prosiectau a gwerthuso
- mapio canlyniadau prosiect cychwynnol i lywio'r gwaith o ddatblygu adnodd banc canlyniadau ar gyfer defnyddwyr Pecyn Cymorth Gwerthuso Ofcom (a gyhoeddir ar wahân)
- cyfarfodydd dal i fyny un-i-un rheolaidd rhwng timau prosiect a chynghorwyr gwerthuso
- adborth a mewnwelediadau a gynhyrchir yn y diwrnodau Dysgu a Rhannu
- cyfweliadau gyda phrosiectau a gynhaliwyd gan y cynghorwyr gwerthuso
- adolygiad o adroddiadau terfynol a chyflawniadau eraill a gyflwynwyd i Ofcom gan y prosiectau ym mis Mawrth ac Ebrill 2024